Cytundeb annisgwyl ond gwahaniaethau barn

Bu Gareth Wyn Jones a minnau yn dadlau yn nhudalennau *Y Traethodydd* ynglŷn ag ymhlygiadau crefyddol ein darlun gwyddonol o'r byd. Maentumiai Gareth fod ein darlun yn tanseilio rhai argyhoeddiadau traddodiadol Cristnogol a maentumiais i nad yw yn eu tanseilio. Yn ôl Walford Gealy (yn y rhifyn diwethaf), yr ydym ill dau ar gyfeiliorn. Craidd ei ddadl yw fod ein gosodiadau yn ddiystyr, gan ein bod yn trin y cysyniad o 'wirionedd' fel petai'n golygu'r un peth o'i gymhwyso at wyddoniaeth, ar y naill law, ac at grefydd, ar y llaw arall. Swydd y rhesymeg ffurfiol yn ei ddadl yw dangos 'nid oes naill wrthddywediad na chytundeb' yn bosibl rhwng yr honiad: 'Y mae gwyddoniaeth yn wir' a'r honiad: 'Y mae'r ffydd Gristnogol yn wir'. Pam felly? Am fod 'amodau ystyrlonrwydd "gwirionedd" yn amrywio'n fawr o gyd-destun i gyd-destun'. Hynny yw, pan mae'r gwyddonydd, ar yr un llaw, yn dweud fod rhywbeth yn 'wir' a'r crefyddwr, ar y llaw arall, hefyd yn dweud fod rhywbeth yn 'wir', maent yn defnyddio'r gair 'gwir' mewn gwahanol ffyrdd, os ydynt yn ei ddefnyddio'n ddilys. Ein bai cyffredin yw ein methiant i weld hyn.

Nid yw dadl Walford yn ein hargyhoeddi. I'r gwrthwyneb, o'm rhan fy hun, fe geisiaf ddangos mai ein cyfaill annwyl, Walford, ac nid ninnau, sydd yn cyfeiliorni'n athronyddol. Er fod Gareth a minnau yn anghytuno ynglŷn â gallu Cristnogaeth, yn ei ffurf draddodiadol, i ymateb yn effeithiol i gwestiynau sydd yn tyfu allan o wyddoniaeth, llwyr gytunaf â'r egwyddor sydd yn hydreiddio ei ymateb i Walford, sef nad yw'n foddhaol o gwbl i ni ddisgrifio'r berthynas rhwng gwyddoniaeth a Christnogaeth yn y modd y mae Walford yn ei wneud.

Gair, yn gyntaf, am ddisgrifiad Walford o'm safbwynt. Meddai amdanaf: 'Nid yw'n mentro yn yr hinsawdd wyddonol sydd ohoni i groes-ddweud Gareth. Hynny yw, nid yw'n mentro awgrymu "Cristnogaeth sy'n wir ac nid gwyddoniaeth".' I fod yn fanwl gywir, ni ddylai Walford ddefnyddio'r ymadrodd: 'Y mae gwyddoniaeth yn wir'. Mae hynny fel dweud fod 'Cemeg yn wir' neu 'Fywydeg yn wir'; ond disgyblaeth, neu faes, yw Cemeg neu Fywydeg, ac nid yw maes neu ddisgyblaeth yn 'wir'. Felly gyda 'Gwyddoniaeth'. Ond, yng nghyd-destun ein trafodaeth, gallwn feddwl mai manylyn yw hyn. Eithr gadewch i ni ystyried gair Walford, 'mentro'. Bwriwch fy mod am groes-ddweud y sawl sydd yn dweud: 'Mae'r byd yn cylchdroi'r haul'. Ai 'mentrus' yw'r ansoddair a ddaw i feddwl? Go brin. A yw disgrifiad gwyddonol Gareth yn llai sicr na pherthynas y byd â'r haul? Wel, efallai ei fod, ond nid wyf yn wyddonydd a ffurf fy nadl yw: 'Os yw'r byd fel y mae Gareth yn ei ddisgrifio, nid yw hynny yn tanseilio daliadau traddodiadol Cristnogol'. A siarad yn hollol gyffredinol, fel un nad yw'n wyddonydd, nid wyf yn teimlo naill ai ynghlwm wrth nac yn wrthwynebus tuag at ddisgrifiad Gareth.

Beth bynnag, gwall sylfaenol Walford yw gwahaniaethu rhwng gwirionedd gwyddonol a gwirionedd crefyddol *yng nghyd-destun ein trafodaeth*. Dywedwch fy mod yn gwneud gosodiad fel hyn: 'Ni fu esblygiad'. Ar ba sail y gwnaethpwyd fy ngosodiad? 'Ar sail grefyddol; dyma un o'm daliadau diwinyddol', meddaf i. Ydyw fy ngosodiad yn wyddonol? Nac ydyw, yn yr ystyr hyn: nid trwy wyddoniaeth y deuthum i'r casgliad perthnasol. Ond mae gwyddoniaeth yn gallu anwireddu fy ngosodiad. Os yw'r gwyddonydd yn gywir i ddweud: 'Fe fu esblygiad', mae'r crefyddwr yn anghywir i ddweud: 'Ni fu esblygiad', os ydynt ill dau yn defnyddio'r gair 'esblygiad' yn yr un ffordd. Ofer dweud yn ffasiwn Walford: 'Ond mae 'gwirionedd' neu mae 'amodau ystyrlonrwydd gwirionedd' yn amrywio o un i'r llall, sef rhwng y gwyddonydd a'r crefyddwr'. Mae gwirionedd gwyddonol yr un yn tanseilio gwirionedd crefyddol y llall.

Nid yw *sail* na *chyd-destun* gosodiad yn gwneud gwahaniaeth i *ystyr* y gosodiad ym *mhob* achos. 'Mae bedd Iesu yn wag', medd rhywun. Ar ba sail? 'Ffydd', meddai. Ym

mha gyd-destun y dywedir hyn? 'Yng nghyd-destun y bywyd Cristnogol', meddai; 'dyma argyhoeddiad sydd yn llywio fy mywyd crefyddol'. Ond bwriwch fod hanesydd, sydd yn mynd ati yn *wyddonol*, wedi'r cyfan, er nad yw yn 'wyddonydd naturiol', yn honni ei fod wedi darganfod bedd yr Iesu a'r Iesu yn ei fedd. A fyddai'r athronydd call yn dweud: 'Nid yw'r gosodiad: "Mae'n wir fod Iesu yn ei fedd" yn gallu gwrth-ddweud y gosodiad: "Mae'n wir fod bedd Iesu yn wag", achos mae amodau ystyrlonrwydd y gair 'gwir' yn wahanol yn achos y gwyddonydd ac yn achos y crefyddwr'? Eithr rhaid dweud fod Walford yn gryptaidd iawn yn ei sylwadau ar hanes, felly, o bosib, mae am drin y gwyddonydd a'r hanesydd yn wahanol i'w gilydd, er fod ei gyfeiriad at empeiryddiaeth yn awgrymu fod rhesymeg ei ddadl ynglŷn â gwyddoniaeth yn dal yn achos hanes, hefyd.

Yn sgil y sylwad uchod ar esblygiad, efallai y bydd Walford am ddweud: 'Derbyniaf fod *rhai* "gwirioneddau gwyddonol" yn gallu gwrth-ddweud *rhai* "gwirioneddau crefyddol", ond, yn achos y ddadl arbennig hon, rhwng Gareth a Stephen, nid yw'r gwirioneddau dan sylw yn wirioneddau o'r fath'. Ond annilys fyddai'r fath ateb. Pwynt egwyddorol sydd gan Walfod ynglŷn â chategorïau. Yr wyf i yn amlwg (a Gareth, efallai, yn dawel bach) 'yn euog o'r bai a elwir yn "hanfodiaeth resymegol" ', beirniadaeth, meddai Walford, sydd yn agos at ei brif wrthwynebiad tuag atom. Ym marn Walford, nid oes y fath beth â 'rheswm' i'w gael; mae *ystyr* rheswm yn newid o gyd-destun i gyd-destun. Fe garwn ymhelaethu ar Locke yn y fan hon, ond ni wnaf i ildio i'r temtasiwn.[1] Yn nhyb Walford, oherwydd amwysedd y gair 'rheswm', mae'r 'cyfan yma' yn nadl Stephen 'yn ofer'. Ond fel arall mae hi. Os yw rheswm gwyddonol yn dangos fod esblygiad wedi digwydd, ofer gwadu fod hynny heb effaith ar yr hyn sydd yn rhesymol mewn crefydd, ar sail y ffaith fod 'rheswm' yn air amwys. Holl bwrpas Luc a Paul, pan fônt yn apelio at dystiolaeth y llygaid (Luc 1:1-4; 1 Corinthiaid 15:3-7), yw cysylltu'r hyn sydd yn rhesymol mewn crefydd â rhesymolrwydd eangach. Ydynt hwy yn euog o 'hanfodiaeth resymegol'? (Gadewch i mi bwysleisio yn bendant *iawn*: y mae 'credu' yn golygu llawer mwy na derbyn gwirioneddau hanesyddol; yn wir, un o wendidau mawr dealltwriaeth gyffredinol o natur ffydd yw ei ddeall fel mater o dderbyn rhai gosodiadau.)

Beth sydd yn gyfrifol am gamsyniad Walford? Ai anfoesgar awgrymu mai ffwndamentaliaeth Wittgensteinaidd yw'r drwg? Fel mater o ffaith, credaf fod Wittgenstein yn ffrwythlon iawn ar gyfer diwinyddiaeth mewn modd llawer rhagorach na Locke. Ond rhaid bod yn feirniadol ohono hefyd. Yn ôl Wittgenstein, fe ddylai athroniaeth adael popeth yn ei le, gan ddisgrifio sut y mae iaith yn cael ei defnyddio mewn gwahanol cyd-destunau. Serch hynny, mae lle i ddadlau nad yw Wittgenstein yn llwyddo i wneud hynny yn ei sylwadau ar grefydd, yn sicr yn achos Cristnogaeth. (Ac i'r graddau fod Wittgenstein yn trin iaith Gristnogol fel teip o iaith grefyddol mae cwestiwn yn codi ynglŷn â dilysrwydd ei ddadansoddiad.) Tybiaf mai effaith dylanwad Wittgenstein ar Walford yw iddo ddod at holl gwestiwn Cristnogaeth a gwyddoniaeth gan ragdybio anghymesuredd rhwng eu cysyniadau. Efallai fod ei reddf yn gywir i raddau helaeth, ond mae'r cymhwysiad yn anghywir yn achos y ddadl rhwng Gareth a minnau.

Gor-ddamcaniaethol, efallai, yw'r ddirnadaeth hon o ddyfnderau Wittgensteinaidd meddwl fy nghyfaill Walford. Nid oes dim yn fy nadl yn dibynnu ar fy namcaniaeth. Mae llawer o ddryswch o gwmpas yn y trafodaethau cyffredin, cyfarwydd a chyhoeddus ar ffydd a rheswm, ar grefydd a Christnogaeth, ar wyddoniaeth ac empeiryddiaeth. Efallai ein bod ni'n tri yn cytuno, fel cyfeillion mynwesol, fod dryswch yn teyrnasu. Ond ni fyddwn yn llwyddo i hybu dealltwriaeth wrth ynysu crefydd oddi wrth wyddoniaeth yn y modd y gwna Walford. Nid yw rhesymeg iaith yn ein gorfodi i wneud felly ar lefel ffurfiol athronyddol, ac nid yw rhesymeg Cristnogaeth yn caniatáu i ni wneud hyn ar lefel sylwedd crefyddol.

STEPHEN NANTLAIS WILLIAMS

Belfast

Nodiad

1 -Edrycher yn fanwl ar y ffordd yr wyf yn defnyddio Locke yn f'ysgrifau. Fel mater o ffaith, nid yw'r cysyniad o 'reswm' yn Locke yn unffurf; y mae'n amrywio, a mae cymhariaeth rhwng ei waith enwog, *Traethawd ar Ddealltwriaeth Ddynol* a'i ohebiaeth â'r Esgob Stillingfleet yn awgrymu fod Locke efallai yn gwrth-ddweud ei hun. Ond rhaid gadael llonydd iddo yn y fan hon.

Roeddwn yn hynod falch i ddarllen cyfraniad Walford "Gareth a Stephen, fy nghyfeillion annwyl" yn y rhifyn diwethaf o *Y Traethdydd*.

Rhan o'm bwriad wrth lunio fy erthygl wreiddiol oedd ysgogi trafodaeth eang. Mae'r berthynas rhwng gwyddoniaeth a chrefydd yn tanio llenyddiaeth sylweddol yn y Saesneg, er bod y ddadl rhwng yr 'atheistiaid newydd' ac amddiffynwyr Cristnogaeth (ac yn wir, y credoau Abramaidd eraill) yn aml yn ddinistriol a checrus. Ond yn Gymraeg tawelwch a difaterwch?, pia hi.

Mae Walfod yn rhagweld 'efallai na fydd Gareth yn fodlon ar y gorsymleiddio yma' - ac mae'n iawn! Gwn hefyd fod Stephen Nantlais Williams yn anfodlon am resyman nid annhebyg, a bod yn y materion hyn, o leiaf, fesur sylweddol o cytundeb rhwng Stephen a finnau.

Felly, yn fyr, carwn achub fy ngham.

1. -Nid wyf yn dadlau bod 'gwyddoniaeth yn wir ond nid yw crefydd yn wir'. Rwyf o'r farn bod y meddylfryd a'r gyfundrefn 'wyddonol' yn lledaenu sceptigaeth a gwneud 'ffydd draddodiadol' yn anos ac yn cynnig her i'r dehongliadau traddodiadol o Gristnogaeth. Rwyf hefyd yn dadlau mai annoeth yw adeiladu credoau crefyddol ar 'logos' sydd yn groes i'n dealltwriaeth gyfoes o'r bydysawd. Hanfod gwyddoniaeth yw sceptigaeth, herio awdurdod ac amheuaeth - ceisio'r dystiolaeth orau, ei herio, cyflwyno damcaniaeth i'w hegluro (gan dderbyn nad yw yn gyflawn nac yn oesol) - 'sicrwydd dros dro' a pharodrwydd i ailfeddwl, gwybodaeth weithredol nid absolwt. Canlyniad y dull dadansoddiadol hwn yw ein bod wedi deall ein bydysawd yn llawer helaethach a bod lle i ryfeddu a synnu at y canlyniadau. Anodd yw cysoni yr agwedd hon â "ffydd", er fy mod yn derbyn bod rhai gwyddonwyr o fri yn llwyddo. Fel y dadleuir gan Karen Armstrong, mae bri a llwyddiant gwyddoniaeth yn peri i rai Cristnogion ddehongli'r testunau hanesyddol cyfoethog fel be baent yn destunau gwyddonol gan waethygu ein penbleth a lleihau eu perthnasedd.
2. -Rwyf hefyd yn dadlau ei bod yn anodd iawn cysoni ymddiriedaeth mewn Duw daionus, cariadus a thrugarog, sydd hefyd yn ymyrryd yn ein byd, â'n dealltwriaeth (er yn annigonol a thros dro) o hanes bywyd ar ein Daear. O gredu mewn Creawdwr a Chynllunydd cyfiawn a chariadus, 'pensaer' y Ffrwydrad Mawr a Bywyd etc., rhaid cydnabod iddo 'Ef' drefnu i 99.9% o rywogaethau ar ein planed gael eu difa ar y llwybr atom ni, *Homo sapiens*. Cofier hefyd, ryw 30 i 40 mil o flynyddoedd yn ôl, roedd nid yn unig *H. sapiens* ond dynion Neanderthal, Denisovan a Floresiensis yn cyd-gerdded ar ein Daear. A oedd Duw yn arbrofi? A ydym i gredu bod Duw y Cynllunydd wedi trefnu'r diflaniad?
3. -Anodd hefyd osgoi'r casgliad bod na elfen o siawns a 'chaos' (hynny yw canlyniadau gwahanol iawn yn deillio o fân wahaniaethau) yn esblygiad ein byd a bywyd arno – dylanwadau annisgwyl ac anragweledig ffrwydrau llosgfynyddoedd, tswnamis a daeargrynfeydd a thrawiadau comedau.

4. -Mater gwahanol, yn fy marn i, yw'r broblem oesol o boen a thrallod yn ein bywyd beunyddiol. Yr eglurhad traddodiadol yw'r 'cwymp yn Eden', pechod a difrawder dynoliaeth yn ein gwahanu o fyd 'perffaith Duw'. Ond uchod, rydym yn sôn am y llwybr milenial **tuag at** ddynoliaeth – sef cynllun honedig Duw i greu dyn. Felly, os nad ydych yn cymryd Genesis yn gwbl lythrennol, rhaid ystyried hanes hirfaeth ein planed dros y milenia. Yn ogystal, cyfyd y broblem o boen, dinistr a marwolaeth yn ein byd. Yn ein hoes ni, ceir trychinebau nid annhebyg i'r trychinebau hanesyddol, er llai dinistriol diolch i'r drefn, megis y daeargryn yn Siapan yn ddiweddar; cyfaddefod y Pab ei hun nad oedd ganddo ateb o fewn yr efengylau (gweler hefyd John Prichard a Meirion Lloyd Davies yn *Y Goleuad,* 8 Ebrill, 15 Ebrill 2011).

5. -Rwyf yn derbyn bod 'mythos' crefyddol, hynafol a chyfoethog yn hanfodol i'n bywydau. Rydym yn greaduriaid sy'n dibynnu ar emosiynau a chredoau yn ogystal â rheswm!

6. -Trist, felly, yw gweld capeli yn gwagio a'r ymwybyddaiaeth o'n hetifeddiaeth yn diflannu, heb ddim i gymryd ei lle.

7. -Nid wyf yn gwadu nac yn diystyru 'tystiolaeth hanes' – hynny yw, cynnwys y testunau hanesyddol. Nid wyf yn hanesydd Beiblaidd, Toraidd na Choranaidd ond wedi darllen llyfrau Karen Armstrong ac eraill, yn arbennig *A History of Christianity* (Diarmaid MacCulloch), cyfrol a gafodd ganmoliaeth gan ysgolheigion megis Rowan Williams, anodd yw osgoi'r casgliad bod y dystiolaeth ddogfennol yn amwys a bylchog. Mae syniadau 'Cristnogol' wedi newid yn sylweddol (syfrdanol?) rhwng cyfnod Iesu a, dyweder, Cynadleddau Nicaea a Chalcedon, heb sôn am ein hoes ni.

8. -Teimlaf reidrwydd i geisio ymgodymu â chwestiwn anodd ond sylfaenol, nid yn unig beth ydi'r 'achos' neu'r 'rheswm' dros fywyd, ond beth ydi pwrpas crefydd? Ai ymddiried mewn Duw goruwchnaturiol sydd wedi ymyrryd ar ei Ddaear i gynnig achubiaeth o'n pechodau ac, yn y pen draw, o ddilyn canllawiau neu awdudod rhai sectau, etifeddu bywyd tragwyddol yn ei nefoedd? Neu greu fframwaith i'n cynorthywo ni, feidrolion, ansicr ac anwadal, yn ein buchedd ddaearol a'n cynorthwyo i fyw yn fwy trugarog a deallus (gweler Armstrong, *Twelve Steps to a Compassionate Life*)?; i fod, os mynnwch, yn 'dangnefeddwyr plant i Dduw'? Os mai'r ail, mae tystiolaeth gynyddol i gadarnhau bod cyfryngu/myfyrio, byw i eraill, cydymdeimlo a rhannu yn llesol i'r unigolyn ac i gymdeithas, yn cadarnhau negeseuon y meddylwyr a'r proffwydi mawr. Nid oes anghysondebau amlwg rhwng y dystiolaeth seicolegol a niwroffisiolegol nac esblygiadol a'r ail osodiad. Clywaf amryw yn pwysleisio nad yw'r ddau osodiad yn groes i'w gilydd. Gwir i raddau; ond onid yw rhai honiadau a dogmâu traddodiadol erbyn hyn yn andwyol ac yn ein gwahanu, nid yn ein huno.

9. -Rwy'n dadlau bod ein 'mythos' a'n 'logos' (neu ein credoau crefyddol a gwyddoniaeth) yn rhan o spectrwm eang a chyfoethog bywyd a dysg, nid yn groes fel awgrymir gan Walford. Fel Stephen Nantlais, credaf nad yw yn rhesymegol gwahaniaethu rhwng gwironeddau yn seiliedig ar grefydd a rhai yn seiledig ar ymchwil gwyddoniaeth. Ar bob achysur rhaid cymhywso'r dystiolaeth orau a'r rhesymeg finiocaf. Dylai ein casgliadau a'n damcaniaethau fod yn gyflenwol nid yn gwrth-ddweud ei gilydd.

10. -Cefais y fraint ychydig wythosau yn ôl o gyfarch Jan Morris a dweud cymaint rwyf yn edmygu ei gwaith a'i bywyd. Trodd y sgwrs at y Cyfrifiad a gofynnais iddi sut yr atebodd y cwestiwn am ei chrefydd. Atebodd iddi ysgrifennu un gair – 'kindness'. Dim yn holl ateb, wrth gwrs, ond cychwyniad da!

Yn gywir
Gareth

GARETH WYN JONES

Bangor